Bywyd Gwyllt yn eich Ward - Syniadau i Weithredu Arnynt

Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru - sut y gall helpu eich cymuned

Cyflwyniad i Hyfforddiant Cofnodi Biolegol
Gall Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru gynnig 'Cyflwyniad i Hyfforddiant Cofnodi Biolegol', sy'n cynnwys y canlynol:
- Beth yw cofnod?
- Pam cofnodi?
- Sut i gofnodi ar blatfformau Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

Mae'r hyfforddiant hwn yn para am oddeutu awr a gellir ei gyflwyno drwy Zoom neu'n bersonol pan fydd y cyfyngiadau'n llacio. Gallai'r hyfforddiant gael ei gynnal yn ystod yr wythnos neu ar benwythnos, yn ystod oriau swyddfa neu gyda'r nos, p'un bynnag sydd orau i'r cyfranogwyr.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Carys Williams yng Nghanolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru: Carys@westwalesbiodiversity.org.uk

Tudalen YouTube (https://www.youtube.com/channel/UC2CVDNQxRV424WBahzlTOwA)
Mae gan Ganolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru bellach dudalen YouTube lle gallwch weld ei holl gyrsiau hyfforddi ar-lein. Mae'r Ganolfan wedi curadu rhestr chwarae o 'Ganllawiau Dynodi Bywyd Gwyllt' sy'n cynnwys cyrsiau hyfforddi o Ganolfannau Cofnodi Lleol eraill yng Nghymru (Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru, Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth a Cofnod), yn ogystal â fideos gan Buglife, yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, NatureSpot, y Cyngor Astudiaethau Maes, Plantlife a Chymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain ac Iwerddon.
Mae rhestr chwarae ddefnyddiol hefyd ar gael sy'n cynnwys canllawiau fideo ar sut i ddefnyddio Aderyn, sef Cronfa Ddata Cofnodi a Gwybodaeth Bioamrywiaeth Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru, ac mae ap Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol Cymru ar gael i'ch helpu i gofnodi ar eich ffôn symudol pan fyddwch allan.

Grŵp Cofnodi Facebook
Mae gan Ganolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru grŵp Facebook - sef *West Wales Biological Recording*. Mae'r grŵp hwn yn lle i bobl yng ngorllewin Cymru rannu canfyddiadau o fywyd gwyllt, gofyn am gyngor ynghylch adnabod a thrafod popeth sy'n ymwneud â chofnodi gyda'i gilydd a staff Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. Mae Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn ceisio adeiladu

cymuned o gofnodwyr (dechreuwyr a rhai profiadol) a gwirwyr i wella cofnodi biolegol yn rhanbarth Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.

Prosiect Gardd neu Gyffredin
Mae'r Prosiect Gardd neu Gyffredin yn annog pobl i fynd allan a chofnodi'r rhywogaethau cyffredin y byddent yn eu gweld yn eu gerddi ledled gorllewin Cymru. Mae'n gwahodd y cyhoedd i gofnodi chwe rhywogaeth gyffredin sydd wedi'u tangofnodi. Mae'r ffurflen gofnodi yn hwylus, yr unig beth sydd yn rhaid i chi ei wneud yw clicio ar y rhywogaeth rydych wedi'i gweld, nodi eich enw a phryd a lle welsoch chi'r rhywogaeth honno.

Gweld yn Gyffredin ac yn yr Ardd - Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (wwbic.org.uk)

Wythnos Natur Cymru! 29 Mai – 6 Mehefin 2021

Dathlu natur yn ystod Wythnos Natur Cymru!

Bydd cyfres o ddigwyddiadau rhithwir yn cael eu cynnal gan ddechrau gyda'r BioBlitz Gerddi - gallwch gymryd rhan ledled Cymru drwy weld a rhannu preswylwyr ac ymwelwyr natur yn eich gardd. Bydd cymorth a chynghorion defnyddiol gan ein cymuned o arbenigwyr yn sicrhau bod eich profiad yn llawn hwyl a gwybodaeth.

Bydd y dathliadau'n parhau drwy ganolbwyntio pob dydd ar fathau o gynefinoedd a'r rhywogaethau a gynhelir ganddynt. Trefnir hyn gan Bartneriaethau Natur Lleol yng Nghymru, ac mae'n gyfle i weld natur ar garreg eich drws, pwy sy'n byw yno a sut y gallwch helpu natur.

https://www.biodiversitywales.org.uk/Wythnos-Natur-Cymru



Nodiadau Natur Sir Gaerfyrddin

Llunnir y nodiadau bedair gwaith y flwyddyn - mae gan Sir Gaerfyrddin fywyd gwyllt gwych. Mae'r 'Nodiadau Natur' hyn yn cynnwys uchafbwyntiau er mwyn ein hannog ni i gyd i fwrw golwg fanylach o'n hamgylch ni – mae hyd yn oed y pethau mwyaf cyffredin yn arbennig. Ydych chi wedi gweld rhywbeth diddorol? Beth am anfon llun atom?

Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin (llyw.cymru)

Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin - Chwilfa Fawr y Dolydd 2021

Carmarthenshire Meadows Group / Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin

Mae Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin, a sefydlwyd rhai blynyddoedd yn ôl yn y sir, wedi datblygu prosiect - Chwilfa Fawr y Dolydd - ar gyfer 2021.

Datblygwyd yr arolwg gan Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin gyda chymorth cofnodwr planhigion Sir Gaerfyrddin, Richard Pryce. Mae'n adlewyrchu prosiect Gwylio Adar yr Ardd y RSPB, ond yn hytrach na chofnodi adar, mae'r grŵp yn gofyn i bobl gofnodi planhigion.

Er y datblygwyd yr arolwg yn Sir Gaerfyrddin, mae croeso i bawb gymryd rhan lle bynnag yr ydych yng Nghymru, a does dim angen i chi fod â dôl eich hun - ond cofiwch gael caniatâd y tirfeddiannwr os byddwch yn mynd ar dir rhywun arall a dilynwch yr holl ganllawiau Covid gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol ar adeg yr arolwg.

Y nod yw chwilio am rywogaethau planhigion mewn dolydd a'u cofnodi gan ddefnyddio rhestr wirio Chwilfa Fawr y Dolydd. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal dros 2 wythnos ar wahân - yr wythnos gyntaf rhwng **30 Mai a 6 Mehefin** (Wythnos Natur Cymru), a'r ail wythnos rhwng **3 a 10 Gorffennaf** (i gyd-fynd â Diwrnod Dolydd Cenedlaethol). Gallwch chwilio yn ystod yr wythnos gyntaf neu'r ail wythnos, neu'r ddwy os oes gennych yr amser.

Mae rhestr wirio Chwilfa Fawr y Dolydd yn seiliedig ar restr rhywogaethau glaswelltir ac iseldir Cynllun Cenedlaethol Monitro Planhigion Plantlife, gyda rhywogaethau dolydd ychwanegol wedi'u hychwanegu ar y diwedd.

Mae gan y Cynllun Cenedlaethol Monitro Planhigion ganllaw defnyddiol ar gyfer adnabod lliwiau sydd ar gael ar-lein ar ffurf PDF yn https://www.npms.org.uk/sites/default/files/PDF/NPMS_Id%20guide_WEB_2ndEd.pdf, yn ogystal â chyflwyniad dwy ran i laswelltiroedd ac iseldiroedd yn https://www.npms.org.uk/content/online-training.

Mae'r rhestrau gwirio (mewn fformat Excel a Word) ar gyfer Sir Gaerfyrddin a thu allan i'r sir wedi'u hatodi i'r neges e-bost hon, a gellir eu hargraffu i'w defnyddio y tu allan. Gallwch nodi eich canlyniadau yn y ffeil Excel (os yw'n bosibl) neu'r ffeil Word (os yw'n haws) a'u dychwelyd i'r cyfeiriad a nodir isod.

Mae gan **Chwilfa Fawr y Dolydd 2021 grŵp ar Facebook** lle gallwch ychwanegu eich canfyddiadau, ffotograffau a sylwadau a gweld beth arall sy'n cael ei ganfod, ac mae cyfrif Twitter ar gael: **@bigmeadowsearch**.

Drwy gymryd rhan byddwch yn cyfrannu at wybodaeth am gynefinoedd glaswelltir yn eich ardal a chofnodion yn eich canolfan cofnodion bioamrywiaeth leol, ac yn cael budd o fod yn yr awyr agored.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â bigmeadowsearch@gmail.com

Os ydych yn gallu, **CYMERWCH RAN** ac anfonwch hwn ymlaen at unrhyw un/grŵp a allai fod eisiau cymryd rhan.